# Contract Meddiannaeth Llety neu Drwydded i Feddiannu – Canllawiau Rhyddhau yn Gynnar mewn Amgylchiadau Eithriadol

**Adolygwyd: Mawrth 2026**

## Eich Contract Meddiannaeth neu Drwydded i Feddiannu

Pan fyddwch yn llofnodi eich contract meddiannaeth neu eich trwydded i feddiannu ("eich contract"), rydych yn ymrwymo i'r cyfnod penodol llawn. Rydych yn gyfrifol am dalu rhent am gyfnod cyfan eich contract.

Dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y gallwch ddod â'ch contract i ben yn gynnar:

- Rydych wedi newid o astudio'n llawn amser i ran amser (dim ond myfyrwyr llawn amser sy'n gymwys i fyw mewn llety Prifysgol).
- Rydych wedi methu â bodloni'r gofynion dilyniant ac mae'n rhaid i chi dynnu'n ôl o'ch cwrs.
- Rydych wedi dod o hyd i fyfyriwr cymwys i ymgymryd â'ch contract yn eich lle. Bydd y Tîm Llety yn asesu a yw rhywun yn gymwys i gymryd eich lle, a rhaid i'r unigolyn hwnnw fodloni'r amodau canlynol:
    - Rhaid i'r unigolyn sy'n cymryd eich lle fod yn fyfyrwyr cofrestredig ym Mhrifysgol Bangor.
    - Rhaid i'r unigolyn dan sylw fod ar yr un math o raglen â'r myfyriwr sy'n gadael (blwyddyn gyntaf ar gyfer blwyddyn gyntaf, myfyriwr sy'n dychwelyd ar gyfer myfyriwr sy'n dychwelyd, myfyriwr ôl-radd ar gyfer myfyriwr ôl-radd).
    - Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i'r myfyriwr sy'n cymryd lle'r myfyriwr sy'n gadael fod o'r un rhyw.
    - Ni ddylai'r myfyriwr sy'n cymryd lle'r myfyriwr sy'n gadael eisoes fod yn byw mewn llety sy'n eiddo i'r Brifysgol.
- Rydych wedi profi amgylchiadau eithriadol ac mae'r Brifysgol, yn ôl ei disgresiwn, yn cytuno i'ch rhyddhau o'ch contract.

---

## Amgylchiadau Eithriadol

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod sefyllfaoedd annisgwyl yn gallu codi ar ôl ymrwymo i gontract meddiannaeth neu drwydded i feddiannu. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol, ond fel canllaw, mae amgylchiadau eithriadol yn ddigwyddiadau neu faterion sy'n cwmpasu'r canlynol:

- Nid oeddent yn hysbys i chi pan lofnodwyd eich contract, neu
- Maent wedi datblygu ers hynny, ac
- Maent yn ddigon difrifol fel na fyddech wedi dewis byw mewn llety Prifysgol pe byddech wedi gwybod amdanynt.

Gall enghreifftiau gynnwys:

- Mae profedigaeth aelod agos o'r teulu yn effeithio'n sylweddol ar lle mae angen i chi fyw.
- Gwasanaeth milwrol gorfodol neu ofyniad cyfreithiol i gymryd rhan mewn gwrthdaro milwrol.

- Cael eich asesu'n ffurfiol i fod yn "anaddas i astudio" neu'n "anaddas i breswylio" gan y Brifysgol.
- Newid yn eich iechyd meddwl, neu gyflwr meddygol, ac ystyrir bod eich llety presennol yn niweidiol. Rhaid cefnogi hyn gyda thystiolaeth gan weithiwr meddygol proffesiynol cofrestredig, gan gynnwys esboniad yn egluro pam, yn eu barn nhw ac yn seiliedig ar resymau meddygol, nad yw byw mewn Neuaddau bellach yn addas.

Mewn achosion pan dderbynnir amgylchiadau eithriadol, bydd y Brifysgol fel arfer yn codi ffi hyd at **28 diwrnod o rent** o'r dyddiad ymadael y cytunwyd arno. Os bydd tenant newydd yn symud i mewn yn gynt (fel arfer ar ôl cyfnod glanhau o 72 awr), bydd eich atebolrwydd yn dod i ben ar y dyddiad hwnnw.

---

**Os ydych yn Tynnu'n Ôl o'ch Cwrs**

Os ydych yn tynnu'n ôl yn barhaol neu'n atal eich astudiaethau dros dro, rhaid i chi:

1. Gwblhau cais i dynnu'n ôl yn barhaol neu atal eich astudiaethau dros dro ar y ganolfan geisiadau yn FyMangor
2. Cytuno ar ddyddiad gadael gyda Swyddfa'r Neuaddau.
3. Glanhau eich ystafell a'r gegin, a mynd â'ch holl eiddo a sbwriel oddi yno.
4. Dychwelyd eich allweddi/cardiau i Swyddfa'r Neuaddau neu'r Swyddfa Diogelwch.
5. Talu hyd at 4 wythnos o rent o'r dyddiad ymadael y cytunwyd arno, oni bai bod tenant newydd yn symud i mewn yn gynt.
6. Os nad ydych wedi symud i mewn i Neuaddau, codir tâl arnoch tan:
    - y dyddiad y gwnaethoch hysbysu'r Brifysgol nad ydych yn mynychu mwyach, neu
    - y dyddiad y caiff y tynnu'n ôl ei brosesu.

    Pa bynnag ddyddiad sy'n dod olaf.

Eich cyfrifoldeb chi yw hysbysu Swyddfa'r Neuaddau os ydych yn penderfynu tynnu'n ôl yn barhaol neu ohirio eich astudiaethau dros dro.

---

**Myfyrwyr sy'n Dewis Symud i Lety nad yw'n eiddo i'r Brifysgol neu nad ydynt yn Symud i Neuaddau**

Os byddwch yn dewis symud o neuadd breswyl y Brifysgol i lety nad yw'n eiddo i'r Brifysgol, neu'n dewis peidio â symud i Neuaddau ar ôl llofnodi'r contract, tra byddwch o dan gontract o hyd, byddwch yn parhau i fod yn gyfrifol am dalu ffioedd llety am weddill y cyfnod penodol os yw eich ystafell yn parhau i fod heb ei neilltuo.

Os gallwch ddod o hyd i fyfyriwr cymwys sy'n newydd i lety'r Brifysgol i lenwi'r lle gwag, byddwch yn cael eich rhyddhau o'r contract o'r dyddiad y bydd y myfyriwr sy'n cymryd eich lle yn symud i mewn, ar ôl llofnodi contract meddiannaeth neu drwydded i feddiannu'r ystafell honno.

---

**Proses gwneud Cais i Ryddhau yn Gynnar**

Os ydych yn credu y gellir ystyried eich sefyllfa fel amgylchiadau eithriadol ac os ydych yn dymuno cael eich rhyddhau o'r contract meddiannaeth yn gynnar, rhaid i chi wneud hyn drwy e-bostio o'ch cyfrif e-bost myfyriwr Prifysgol Bangor, gan gyfeirio gohebiaeth at y Pennaeth Bywyd Preswyl.

**Manylion cyswllt:**

- neuaddau@bangor.ac.uk

Rhaid i'ch cais gynnwys:

- Eich rhif myfyriwr a'ch enw llawn
- Manylion eich newid mewn amgylchiadau sy'n enghreifftio "amgylchiadau eithriadol" yn glir
- Unrhyw ddogfennaeth ategol berthnasol

Caiff ceisiadau eu hadolygu gan y Pennaeth Bywyd Preswyl (neu ei enwebai). Fel arfer, rhoddir penderfyniad o fewn 14 diwrnod gwaith i dderbyn eich cais llawn a'ch tystiolaeth.

---

**Tystiolaeth**

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth i gefnogi eich cais i gael eich rhyddhau o'r contract. Rhaid i hyn fod:

- Yn Saesneg neu Gymraeg, ar bapur pennawd swyddogol, ac wedi'i ddyddio.
- Yn berthnasol i'r rheswm dros eich cais.

Pan fo angen tystiolaeth feddygol, dylai llythyr gan weithiwr meddygol proffesiynol cofrestredig gynnwys:

- Manylion y cyflwr.
- Dyddiad y diagnosis.
- Sut mae'r cyflwr yn effeithio ar eich bywyd bob dydd.
- Pam na fyddai llety Prifysgol amgen yn datrys y broblem.
- Esboniad pam, yn eu barn nhw ac yn seiliedig ar resymau meddygol, nad yw byw mewn Neuaddau bellach yn addas.

---

**Cwynion**

Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad eich cais, neu os ydych yn credu nad yw'r Brifysgol wedi dilyn y canllawiau hyn, gallwch fwrw ymlaen i **Gam 4 o Bolisi Gofal Cwsmeriaid Bywyd Preswyl**, neu gyflwyno cwyn ffurfiol o dan **Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr Prifysgol Bangor**.